

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,  
Tredomen Park,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,  
Parc Tredomen,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG



[www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk)  
[www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Emma Sullivan  
(Rhif Ffôn: 01443 864420 Ebst: [sullie@caerphilly.gov.uk](mailto:sullie@caerphilly.gov.uk))

**Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2019**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'i we-ddarlledu, ac ar gael i'w weld yn fyw ac mewn ffurf archif drwy wefan y Cyngor, ag eithrio trafodaeth yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriadau. Felly bydd delweddau /sain yr unigolion sy'n arsylwi neu siarad/roi tystiolaeth yng nghyfarfodydd Llawn y Cyngor ar gael yn gyhoeddusi bawb weld drwy'r we-ddarllediad ar wefan y Cyngor [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk).

Mae croeso i chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, mae angen rhybudd cyfnod lleiafswm o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod pwyllgor ar agor i'r Wasg a'r Cyhoedd, gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr i ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Nodwch bydd methu a gwneud hyn yn arwain at rywun yn gofyn i chi adael y cyfarfod ac efallai byddwch yn cael eich hebrwng o'r eiddo.

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod y **Cyngor** yn cael ei gynnal yn **Siambwr y Cyngor - Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mawrth, 19eg Tachwedd, 2019** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol.

Yr eiddoch yn gywir,

**Christina Harrhy**  
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

## AGENDA

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

A greener place Man gwyrddach



Atgoffi'r Cyngorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorwyr a Swyddogion.

- |   |  |       |
|---|--|-------|
| 3 | Ethol Arweinydd y Cyngor a nodi bod cyflog uwch yn cael ei dalu. |       |
| 4 | Cyhoeddiadau'r Maer.   | 1 - 2 |
| 5 | I dderbyn deisebau o dan Reol Gweithdrefn 28(3).                 |       |
| 6 | Cyflwyno Gwobrau.  |       |

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- |    |   |         |
|----|---|---------|
| 7  | Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2019.  | 3 - 6   |
| 8  | Cyngor ar 23 Hydref 2019.   | 7 - 20  |
| 9  | Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2019.                                       | 21 - 24 |
| 10 | I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10(4).            |         |
| 11 | Rhybudd o Gynnig - Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Atal Marwolaeth Gardiaidd Ifanc. | 25 - 30 |

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau canlynol o gyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2019.

- |    |                                     |         |
|----|-------------------------------------|---------|
| 12 | Adroddiad Gwella Blynyddol 2018/19. | 31 - 70 |
|----|-------------------------------------|---------|

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol:-

- |    |   |         |
|----|---|---------|
| 13 | Recriwtio ar gyfer Swydd y Prif Weithredwr. | 71 - 82 |
|----|---|---------|

### **Cylchrediad:**

Pob Aelod a Swyddog Priodol

### **SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk), ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym andanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/CommitteeMeetingsPrivacyNotice.aspx> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio [griffd2@caerffili.gov.uk](mailto:griffd2@caerffili.gov.uk) neu ffoniwch 01443 863028.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## CIVIC DIARY ENGAGEMENTS

24<sup>th</sup> October – 19<sup>th</sup> November 2019

### October

- 24<sup>th</sup> PE Display, Blackwood School
- 24<sup>th</sup> GCSE/A Level Art Exhibition, St Martin's School
- 25<sup>th</sup> Comrades Dinner with Islwyn Comrades RBL
- 26<sup>th</sup> Launch of RBL Poppy Appeal
- 26<sup>th</sup> Concert, Risca Salvation Army
- 30<sup>th</sup> Bedwas Writers Circle

### November

- 2<sup>nd</sup> Help for Heroes Event, Caerphilly
- 6<sup>th</sup> Remembrance Service, Abercarn Primary School
- 6<sup>th</sup> 'Be Proud of your Community' Gwent Awards Ceremony
- 7<sup>th</sup> Annual Awards Evening, St Martin's School
- 8<sup>th</sup> Remembrance Service, Fochriw
- 8<sup>th</sup> Summer Reading Scheme Award Presentation, St Helen's School
- 8<sup>th</sup> Visit to TouchBase, Caerphilly by The Princess Royal
- 8<sup>th</sup> Festival of Remembrance, Heolddu School
- 8<sup>th</sup> Armistice Service, Risca
- 9<sup>th</sup> Service of Remembrance, Pontllanfraith
- 10<sup>th</sup> Service of Remembrance, Caerphilly
- 11<sup>th</sup> Service of Remembrance, Ysgol Cwm Gwyddon
- 11<sup>th</sup> 100<sup>th</sup> Birthday Presentation
- 13<sup>th</sup> Launch of Litter Picking Hub, Bargoed Library
- 14<sup>th</sup> Remembrance Assembly, Bedwas High School
- 15<sup>th</sup> Golden Wedding Presentation
- 19<sup>th</sup> Council

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## CYNGOR

### Y CYFARFOD CYNGOR A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD IAU, 3 HYDREF 2019 AM 6.00PM

---

#### YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews - Dirprwy Faer (Llywyddu)

#### Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E. Aldworth, J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, K. Dawson, C. Elsbury, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, T. Parry, Mrs L. Phipps, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mss E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

#### Ynghyd â:-

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog Dros Dro Adran 151) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

#### Hefyd yn bresennol:-

J. Bowers (QC), S. Isaacs (Eversheds), M. Griffiths (Eversheds), D. Daycock (Cynrychiolydd Cyfreithiol A. O'Sullivan) ac A. O'Sullivan (Prif Weithredwr Parhaol)

### TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r bleidlais yn cael ei chynnal trwy'r system bleidleisio electronig.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Angel, P. Bevan, M. Davies, N. Dix, K. Etheridge, J. Fussell, J. Gale, D. Hardacre, M. James, B. Owen, D.V. Poole, D. Preece

a L. Whittle.

## **2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Hysbysodd y Cynghorwyr M. Adams, D.T Davies, N. George, C. Gordon a J. Taylor y cyfarfod y byddent yn gadael y cyfarfod ar ôl i'r Cynghorydd Gordon a Mr O'Sullivan cyflwyno'u sylwadau i'r cyfarfod a chyn i'r cyngor drafod ei benderfyniad oherwydd roeddent yn aelodau cyfredol o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu (PYD).

Gofynnodd y Cynghorydd S. Morgan am gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a oedd angen iddo ddatgan buddiant gan ei fod wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn flaenorol. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd yn fater o ddatgan buddiant ond yn hytrach cwestiwn o degwch gweithdrefnol a, gan gofio nad oedd y Cynghorydd bellach yn Aelod o'r pwyllgor hwnnw, roedd yn hollol dderbyniol iddo aros yn y cyfarfod, cymryd rhan yn y ddatganiad a phleidleisio.

Gofynnodd y Cynghorydd C. Forehead am gyngor gan y Swyddog Monitro gan ei bod wedi bod yn Gadeirydd yr Uwch Bwyllgor Taliadau yn 2012. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, yn yr un modd, nad oedd hyn yn fater o ddatgan budd personol, ond yn hytrach yn fater o degwch y gwrandawriad gerbron y Cyngor heno, a'i fod yn hollol dderbyniol iddi aros yn y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd W. David am gyngor gan y Swyddog Monitro gan ei fod wedi bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn flaenorol ond roedd hyn cyn yr achos llys ac ar yr adeg honno roedd wedi ceisio gweithredu'r mecanwaith cychwynnol yn unig ar gyfer y broses sydd ar y gweill. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod hon yn sefyllfa debyg yn yr ystyr nad oedd yn ddatganiad buddiant fel y cyfryw, ac o ystyried yr amser rhwng dechrau'r broses i'r cyfarfod heddiw, ac nad oedd y Cynghorydd David wedi cymryd unrhyw ran mewn unrhyw gyfarfod PYD dilynol, roedd yn hollol dderbyniol ei fod yn aros yn y cyfarfod.

Ar yr adeg hon gofynnodd Mr Daycock, ar ran Mr O'Sullivan, bod dau Gynghorydd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod a dywedwyd wrtho y dylid cyflwyno unrhyw sylwadau o'r fath fel rhan o'i gyflwyniadau ar ôl ystyried y Prawf Budd y Cyhoedd.

## **3. MATER EITHRIEDIG**

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad bod, ar gyfartaledd, y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **4. YMCHWILIAD DISGYBLU MEWN PERTHYNAS Â'R PRIF WEITHREDWR.**

Ar ôl ystyried y ddogfennaeth ger ei bron yn ofalus, a gwranddo'n ofalus ar sylwadau'r Cynghorydd Gordon a Mr O'Sullivan a'i gwnsler, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a gwrthod yr apêl, trwy gyfrwng y system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 49 o blaid, 1 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD diswyddo'r Prif Weithredwr o gyflogaeth y Cyngor heb rybudd am gamymddwyn difrifol.



Terfynwyd y cyfarfod am 22.34pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 19 Tachwedd 2019 ac fe'u llofnodwyd gan y Dirprwy Faer.

---

Dirprwy FAER

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## CYNGOR

### COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MERCHER, 23AIN HYDREF 2019 AM 5.30PM

---

#### PRESENNOL:

Y Cyngorydd J. Simmonds - Maer

#### Y Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E. Aldworth, A. Angel, J. Bevan, C. Bezzina, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, N. Dix, C. Elsbury, M. Evans, A. Farina-Childs, A. Gair, J. Gale, N. George, C. Gordon, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, M. James, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, C.P. Mann, P. Marsden, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, G. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. . Whittle, T. Williams, B. Zaplatynski.

#### Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), D. Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol), R Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), R. Roberts (Rheolwr Gwella Busnes), P Cooke (Uwch Swyddog Polisi) L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democraidd a Dirprwy Swyddog Monitro) S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog S151 Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

#### **DIWEDDARIAD - Y CYNGHORYDD KEVIN ETHERIDGE**

Fe wnaeth y Maer ddymuno'n dda ac adferiad buan i'r Cyngorydd Etheridge ar ran y Cyngor.

#### **TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO**

Fe wnaeth y Prif Weithredwr Dros Dro atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd ar ffurf fyw ac archifol trwy wefan y Cyngor. Dywedodd hi y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy'r system bleidleisio electronig.

#### **1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs C. Andrews, P.J. Bevan, L. Binding, D. Cushing, K. Etheridge, Mrs C. Forehead, E. Forehead, J. Fussell, R. Gough, A. Higgs, A. Hussey, V. James, S. Kent, P. Leonard, B. Miles, J. Roberts, M. Sargent, J. Scriven a T. Williams.

## **2. CYHOEDDIADAU'R MAER**

Fe wnaeth y Maer amlinellu'r digwyddiadau yr oedd ef a'r Dirprwy Faer wedi'u cynnal ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a chyfeiriodd yr Aelodau at y rhestr o ymrwymadau a gynhwysir yn Eitem Agenda Rhif 2 o becyn yr agenda.

Fe wnaeth y Maer gyfeirio'r Aelodau at rai ymweliadau allweddol y mae wedi'u gwneud, a oedd yn cynnwys Rownd Derfynol Genedlaethol Menter Ifanc Cymru lle'r oedd 2 Ysgol o Gaerffili yn cymryd rhan.

Fe wnaeth y Maer ddiolch i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cymorth a'u presenoldeb yn ei Ddigwyddiad Gwasanaeth Dinesig ym mis Gorffennaf, a oedd yn llwyddiant mawr.

Fe wnaeth y Cyngor nodi presenoldeb y Maer yn y cyflwyniad BEM lle dyfarnwyd medal i'r cyn-Gynghorydd Leon Gardiner a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod digwyddiad Help the Heroes [Helpwch yr Arwyr] wedi'i drefnu yng Nghanolfan Siopa Castle Court [Cwrt y Castell] ar 2il Tachwedd, lle anogodd y Maer gynifer o Gynghorwyr, Swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd â phosibl i fynychu a chefnogi'r Arwyr.

## **3. I DDERBYN DEISEBAU DAN REOL GWEITHDREFN 28 (3)**

Nid oedd unrhyw ddeisebau.

## **4. CYFLWYNO GWOBRAU**

Statws Rhagorol Adroddiad Estyn

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad gyhoeddi, yn dilyn Arolygiadau Estyn diweddar, bod tair o ysgolion y fwrdeistref; Ysgol Gynradd Trinant, Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac Ysgol Gynradd Rhisga statws rhagorol mewn tri maes neu fwy.

Fe ddywedwyd wrth y Cyngor fod y Penaethiaid, staff a llywodraethwyr yn yr ysgolion yn gwbl ymroddedig i ddarparu'r addysg orau i'w disgyblion, a ddangosir yn eu cyflawniadau academaidd ac heb fod yn academaidd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn y seremoni ddiweddar Gwobrau Blynyddol Estyn, cyflwynwyd tystysgrif i bob ysgol i nodi'r gwaith caled a'r ymrwymiad sydd y tu ôl i'r cyflawniad hwn. Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet groesawu Ian Elliot, Jayne Arthur, Sian James, Mike Cook, Ffion Green a Linda Harris a gofynnodd iddynt gamu ymlaen fel y gallai'r Cyngor gydnabod eu gwobrau.

Gwobrau Diogelwch ar y Ffyrdd

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd gyhoeddi bod Mr Lynn Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili, wedi ennill Gwobr Diogelwch ar y Ffyrdd am ei ymrwymiad llwyr i gefnogi "bws cerdded" ei ysgol.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod Mr Griffiths, bob dydd Gwener am y 15 mlynedd diwethaf, wedi "gyrru" ei ddisgyblion i'r ysgol ac o'r ysgol. Nid yn unig mae hyn wedi helpu i leihau tagfeydd o amgylch yr ysgol, ond mae hefyd wedi cyfrannu at iechyd a lles cannoedd o ddisgyblion, y y gorffennol ac yn y presennol, ac yn bwysicaf oll mae wedi sicrhau eu bod yn gwybod ac yn deall elfennau diogelwch ar y ffyrdd. Mae ei frwdfrydedd wedi bod yn heintus. Mae ei staff a'i blant wedi mwynhau cymryd rhan yn y "bws cerdded", sydd erbyn hyn yn rhan annatod o ddiwylliant yr ysgol ac yn parhau i redeg bob dydd Gwener. Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet

groesawu Mr Lynn Griffiths gan ofyn iddo gamu ymlaen fel y gallai'r Cyngor gydnabod ei wobwr.

Gwobrau Cyn-filwyr Cymru, Categori'r Cymunedau

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol gyhoeddi bod Lisa Rawlings wedi ennill Arian yng Nghategori'r Cymunedau yn y Gwobrau Cyn-filwyr Cymru cyntaf erioed yn gynharach eleni.

Fe wnaeth y Cyngor nodi bod degau o filoedd o gyn-bersonél milwrol sydd, ar ôl ymddeol o'r Lluoedd Arfog, wedi mynd ymlaen i gyfrannu'n aruthrol i'r ardaloedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae Gwobrau Cyn-filwyr Cymru wedi'u sefydlu i wobrwyo cyn-filwyr am eu cyflawniadau ym myd busnes, chwaraeon ac ar lefel ehangach.

Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet ddweud bod Lisa wedi gwasanaethu am 25 mlynedd yn y Llu Awyr Brenhinol a'i bod yn Rheolwr Gweithredol Hedfan. Fe wnaeth hi wasanaethu ledled y byd gan gynnwys yng Ngogledd Iwerddon ac Affghanistan. Ers mis Medi 2017, mae Lisa wedi gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sir Caerffili fel Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gwent, gan gefnogi'r pum awdurdod lleol yn yr ardal i ymgorffori'r Cyfamod yn eu gweithrediadau.

Mae Lisa wedi gweithio'n ddiflino, yn ei rôl o fewn yr Awdurdod ac mewn gwaith allanol, i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau personél milwrol. Mae hi wedi chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni gwobr Aur o dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn a gaiff ei chyflwyno fis nesaf ac yn ddiweddar mae Lisa wedi gweithio â Chyngor Cymuned Bedwas, Trethomas a Machen, Cadwch Gymru'n Daclus a'r Gatrawd Parasiwt i godi arian ar gyfer gardd goffa er anrhydedd y Swyddog Gwarantedig 2 Michael Williams, ffrind a anafwyd yn angheuol yn drasig wrth weithredu yn erbyn y Taliban yn Nyffryn Sangin Uchaf yn 2008. Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet groesawu Lisa Rawlings gan ofyn iddi gamu ymlaen fel y gallai'r Cyngor gydnabod ei gwobr.

Rose Brown, MBE a Gwobrau Gofal Cymru

Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles gyhoeddi bod aelod o staff yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn MBE.

Fe ddywedwyd wrth y Cyngor fod Rose Brown wedi cychwyn yng Nghyngor Sir Gwent dros 30 mlynedd yn ôl, gan symud ymlaen i fod yn Rheolwraig Cynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru yn 2010. Mae Rose yn angerddol am Gysylltu Bywydau ac mae'n gwbl benderfynol o gyflenwi a chefnogi gofalwyr ac unigolion Cysylltu Bywydau mewn modd hyderus, angerddol, pwrpasol a hyblyg. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth i oedolion ag anghenion gwahanol ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau. Ers iddo ddechrau yn 2010 mae'r cynllun hwn wedi ennill enw da iawn ar draws yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Chysylltu Bywydau Plws.

Fe nodwyd bod Rose wedi arwain y tîm yn llwyddiannus ers iddo gychwyn yn 2010 ac fe'i henwebwyd am MBE am ei hangerdd, ymrwymiad a chyflawniadau'r cynllun dros y 9 mlynedd diwethaf. Fe ddyfarnwyd gwobr arian i Rose mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y Categori Byw â Chymorth a Grŵp Bach yng Ngwobrau Gofal Cymru a chroesawodd yr Aelod o'r Cabinet Rose Brown gan ofyn iddi gamu ymlaen fel y gallai'r Cyngor gydnabod ei dyfarniad.

## **5. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Fe wnaeth y Cynghorydd D. Hardacre ddatgan buddiant yn Eitem Rhif 12 yr Agenda - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol 2019/19. Cofnodir y manylion â'r eitem berthnasol.

**6. Y CYNGOR - 4YDD MEHEFIN 2019**

PENDERFYNWYD, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd J. Bevan yn bresennol, bod cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Mehefin 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

**7. CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR - 30 GORFFENNAF 2019**

PENDERFYNWYD, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd J. Bevan yn bresennol, bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 30ain Mehefin 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

**8. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10 (2)**

I Arweinydd y Cyngor gan y Cynghorydd Graham Simmonds:

A all yr Arweinydd gadarnhau a yw'r weinyddiaeth yn cadw at Egwyddorion Nolan, sef didwylledd a thryloywder?

Ymateb gan yr Arweinydd

Mewn ymateb i'r cwestiwn, cadarnhawyd bod y weinyddiaeth yn cadw at Egwyddorion Nolan, sef didwylledd a thryloywder, a bod dyletswydd gyfreithiol i weithredu'n foesebol fel aelodau etholedig. Wrth gael eu hethol, mae aelodau'n llofnodi'r datganiad derbyn, gan roi ymrwymiad ysgrifenedig i gadw at y cod ymddygiad ar gyfer aelodau, sy'n cael ei atgyfnerthu gan y 'fframwaith moesegol' a elwir fel arall yn 'egwyddorion Nolan'. Mae'r egwyddorion yn cynnwys Anhunanoldeb; Gonestrwydd; Uniondeb a Phriodoldeb; Dyletswydd i gynnal y Gyfraith; Stiwardiaeth; Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau; Cydraddoldeb a pharch; Diffuantrwydd; Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth.

Fe wnaeth Arweinydd Dros Dro y Cyngor gadarnhau ei bod yn gyfforddus ac yn hyderus bod cydweithwyr y cabinet a hi ei hunan yn cadw'n llawn at yr egwyddorion yn eu gwaith i wella ansawdd bywyd dinasyddion y fwrdeistref sirol.

**9. RHYBUDD O GYNNIG - GWAHARDDIAD AR ANIFEILIAID FEL GWOBRAU AR DIR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

Ystyriwyd y Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd J. Pritchard ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr Mrs E.M. Aldworth, W. David, P. Bevan, L. Whittle, G. Kirby, S. Morgan, A. Hussey, Mrs B. Jones, Mrs T. Parry, R. Gough, A. Farina-Childs, C. Cuss, G. Johnston, B. Owen, K. Etheridge, C. Mann, Mrs D. Cushing, A. Whitcombe, Mrs D. Price, Mrs A. Gair, Mrs C. Andrews, Mrs P. Marsden, Mrs A. Leonard, A. Collis, A. Angel, Mrs P. Leonard, L. Jeremiah, W. Williams, A. Higgs, S. Morgan, S. Cook, J. Simmonds, J. Taylor, T.J. Williams, D.W.R Preece a Mrs Eluned Stenner. Fe nodwyd bod y cynnig wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 17eg Medi 2019 a'i fod wedi'i gefnogi gan ei Aelodau.

Fe wnaeth y Cynghorydd Pritchard ofyn yn ei Rybudd o Gynnig bod y Cyngor yn:

- (i) Gwahardd rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau yn llwyr, ar unrhyw ffurf, ar dir Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili.
- (ii) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, gan annog gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

Fe nodwyd bod y Rhybudd o Gynnig yn diwallu'r meini prawf a gyflwynir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor y'i cyfeirir bellach at Graffu i'w ystyried.

Fe wnaeth yr aelodau gefnogi'r rhybudd o gynnig a cheisiwyd eglurhad ynghylch a ellid cael gwaharddiad llwyr ar draws y Fwrdeistref gan gynnwys tir preifat, a'r pwerau gorfodi sydd gan y Cyngor i gynnal y gwaharddiad. Fe wnaeth swyddogion esbonio nad yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn caniatáu gosod gwaharddiad ledled y Fwrdeistref, fodd bynnag mae gan y Cyngor yr awdurdod i weithredu gwaharddiad ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Fe wnaeth swyddogion ychwanegu nad oes proses orfodi ar hyn o bryd i roi dirwyon neu atafaelu anifeiliaid a gynigir fel gwobrau.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir o fewn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo trwy ddefnyddio'r system bleidleisio electronig a chytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD: -

- (i) Y dylai gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar Dir Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili gael ei weithredu;
- (ii) Y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru, gan annog gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

## 10. RHYBUDD O GYNNIG - YMGYRCH #PLEDGE2TALK

Fe roddwyd ystyriaeth i Rybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorwyr B. Jones, S. Morgan, C. Gordon, C. Cuss, Mrs E. Stenner, Mrs L. Phipps, N. George a Mrs P. Marsden.

Fe nodwyd bod y Maer, yn unol â Rheol 11 (3) y Cyfansoddiad, wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb gael ei drafod gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu.

Fe wnaeth y Cynghorydd B. Jones ofyn yn ei Rhybudd o Gynnig bod y Cyngor yn:

- (i) Cefnogi'r ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac y bydd yn gweithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol yng Nghymunedau'r Cyngor, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol;
- (ii) Sicrhau bod Lles Meddwl yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr awdurdod lleol;
- (iii) Penodi'r Cynghorydd C. Gordon (Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol) fel 'Hyrwyddwr Iechyd Meddwl' y Cyngor.

I gefnogi'r Rhybudd o Gynnig, fe ddymunodd y Cynghorydd Jones iddo gael ei nodi bod mwy na 300 o bobl yng Nghymru yn marw bob blwyddyn trwy hunanladdiad. Yn 2017, dynion oedd 278 o'r 360 o fywydau a gollwyd. Mae gan bob un ohonom ein rhan i'w chwarae wrth ymestyn allan a chynnig cefnogaeth i'r rhai hynny mewn angen trwy ddarparu cyfle i siarad. Mae llawer o bobl yn teimlo na allant siarad am iechyd meddwl oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â chyfaddef bod problem yn bodoli, mae angen i ni oresgyn hyn a gallwn ni i gyd chwarae rhan wrth helpu eraill i deimlo'n ddigon cyfforddus i geisio cymorth.

Fe lansiodd yr Ymgyrch #Pledge2Talk yn y Senedd yn ddiweddar mewn cydweithrediad â Mind Cymru, ac fel Awdurdod Lleol, rydym yn cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles meddyliol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws meysydd cyfrifoldeb pob awdurdod lleol, gan gynnwys tai, diogelwch cymunedol a chynllunio.

Fel Cyngor, gallwn ni hyrwyddo iechyd meddwl ar sail unigol a strategol trwy benodi aelod etholedig yn 'Hyrwyddwr Iechyd Meddwl'.

Wrth gefnogi'r Rhybudd o Gynnig, gofynnodd Aelod a gynigir cyllid i Mind Cymru. Fe wnaeth swyddogion gadarnhau bod dyraniad bach o gyllid y sector gwirfoddol i'r elusen.

Fe godwyd ymholiad ynghylch cymorth a gynigir i'r boblogaeth ddigartref a hefyd pobl ifanc o fewn y fwrdeistref. Fe nodwyd bod staff yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn gweithio ochr yn ochr â Thai er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a chynnig cymorth lle mae'n bosibl. O ran pobl ifanc, fe nodwyd bod llawer o waith yn digwydd erbyn hyn mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, ac mae'r Fforwm Iau ac Ieuenctid wedi nodi Cymorth Iechyd Meddwl fel eu prif flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn ogystal, mae CAMS yn cynnig cymorth i oedolion ifanc, fodd bynnag mae rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth yn hir.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, symudwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir o fewn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy godi dwylo fe'i gytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD: -

- (i) Cefnogi'r ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk a gweithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol yng Nghymunedau'r Cyngor, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol;
- (ii) Trefnu bod Lles Meddwl yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr awdurdod lleol;
- (iii) Penodi'r Cyngorydd C. Gordon (Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol) fel 'Hyrwyddwr Iechyd Meddwl' y Cyngor.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19

Rhoddyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd, a gefnogwyd gan y Cabinet ar 16eg Hydref 2019 ac a ddarparodd i'r Cyngor hunanasesiad blynyddol yr Awdurdod o'i berfformiad, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2018/19, ac a geisiodd farn a chymeradwyaeth y Cyngor cyn cyhoeddi ar y rhyngrwyd erbyn 31 Hydref 2019.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ofniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n rhan bwysig o fframwaith perfformiad y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor asesu ei berfformiad ei hun a darparu darlun cytbwys o'r perfformiad hwnnw i'r cyhoedd. Yn ogystal, rhaid i'r Cyngor hefyd adrodd ar gynnydd ar y chwe Amcan Lles a osododd iddo'i hun yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynrychioli cynnydd y flwyddyn gyntaf ar y cynllun pum mlynedd.

Yn ogystal, nodwyd ei fod yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru wirio a yw awdurdod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol ac i gyhoeddi 'tystysgrif cydymffurfiaeth' mewn ymateb. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ynarddangos i Swyddfa Archwilio Cymru sut rydym wedi cyflawni ein dyletswydd.

Fe roddwyd cyflwyniad i'r Cyngor, a oedd yn amlinellu pob un o'r chwe Amcan Lles a'r cynnydd yn ôl pob Amcan.

Fe nodwyd bod rhai o'r cyflawniadau allweddol o dan Amcan Lles 1 (Gwella Cyfleoedd Addysg i Bawb) yn cynnwys; Mae Ysbrydoli i Weithio wedi cefnogi 160 o bobl ifanc (16-24 oed), â 95 ohonynt wedi ennill cymwysterau, 40 wedi ennill cyflogaeth a 9 wedi symud ymlaen i gyfleoedd dysgu pellach; cafwyd cyllid yn llwyddiannus i ddarparu gofal plant ychwanegol



erbyn 2021 â chyfanswm buddsoddiad o £5.1m; mae cyflwyno Rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif gwerth £56.5m a'r prosiect a lanswyd i fynd i'r afael â Thlodi Cyfnod wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus mewn Ysgolion, mae Urddas Misglwyf yn darparu cynhyrchion am ddim i ferched a menywod ifanc ar draws ysgolion o fewn y Fwrdeistref ac mae'r prosiect hefyd yn anelu at ddod yn rhydd rhag Plastig.

O dan Amcan Lles 2 (Galluogi Cyflogaeth), fe nodwyd bod Rhaglenni Cymunedau am Waith wedi cefnogi 246 o bobl i gael cyflogaeth ledled y fwrdeistref; Dadorchuddiodd y Fargen Ddinesig gynllun 5 mlynedd ar gyfer De-ddwyrain Cymru, â'r amcan economaidd trosfwaol i greu 250,000 o swyddi newydd; fe wnaed gwaith helaeth â ffocws ar ryngweithio â'r Gymuned Fusnes ac mae'r Adran Adfywio wedi cael ei hailstrwythuro, o ganlyniad i newidiadau mewn cyllid ac ansicrwydd ynghylch cyllid yr UE ar ôl Brexit.

Wrth ystyried Amcan Lles 3 (mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled bwrdeistref y sir a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella lles pobl), nodwyd bod 6,166 o gartrefi wedi'u cwblhau o dan y raglen Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS); Mae ymweliadau cartref wedi arwain at £628,000 o incwm ychwanegol i denantiaid; benthyciadau a Grantiau sy'n dod i gyfanswm o oddeutu £794,000 i wella cartrefi perchenfeddianwyr ac atal 471 o aelwydydd yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref yn 2018/19. Yn ogystal, fe nododd y Cabinet fod y gwaith WHQS ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn Mehefin 2020, fodd bynnag ar ôl 2020, gallai fod angen gwneud gwaith ychwanegol o dan agendâu Effeithlonrwydd Ynni. Mae gwaith ar y gweill hefyd i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy ar draws y fwrdeistref, ynghyd â lleihau nifer yr eiddo gwag, a'u dwyn yn ôl i gylchrediad ac yn addas i'r diben.

Arddangosodd Amcan Lles 4 (Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfle, yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr Amgylchedd) fod yr Awdurdod yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth lunio a chyflawni'r rhaglen uchelgeisiol Bargaen Ddinesig, a fydd yn cyflenwi pecyn pellgyrhaeddol o fuddion i'r rhanbarth sy'n dod at gyfanswm o £1.2 biliwn mewn buddsoddiad; rydym ymhlith y cyntaf yng Nghymru i gael ein Llwybrau Teithio Gweithredol a'n Mapiau Rhwydwaith Integredig wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd Cyfnewidfa Caerffili yn ganolbwynt trafndiaeth a leolir ar frig Tref Caerffili i ddarparu mynediad i fysiau, coetsys, rheilffyrdd a chysylltiadau trafndiaeth eraill i ardaloedd/rhanbarthau eraill. Fe wnaeth swyddogion esbonio mai buddsoddiadau tymor hir yw'r rhain, gan gynnwys nifer o asiantaethau partner i wella cysylltiadau trafndiaeth a hygyrchedd ar draws y Fwrdeistref, yn ogystal â diwallu anghenion amgylcheddol, megis gweithredu pwyntiau llenwi cerbydau Trydan.

Wrth drafod Lles 5 (Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw) fe nodwyd y bu 1.5m o ymweliadau â pharciau a chefn gwlad, dyma'r lefel uchaf a gofnodwyd hyd yn hyn, a'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd oedd cerdded; erbyn hyn mae 40% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol o leiaf 3 gwaith yr wythnos ac mae 71% o ferched yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd; Mae mabwysiadu Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Gweithredol Caerffili (2019-29) ym mis Tachwedd 2018 yn garreg filltir arwyddocaol ac mae 84,000 o gyfranogwyr a gymerodd ran yng ngweithgareddau Chwaraeon Caerffili.

Fe wnaeth swyddogion gyfeirio at Amcan Lles 6 (Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu lles) ac fe nodwyd bod canlyniadau allweddol wedi cynnwys cefnogi pobl i'w helpu eu hunain trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill; cael sgysiau ystyrllon i helpu pobl i nodi 'beth sydd o bwys' iddynt i lywio 'eu dewisiadau'; rydym wedi buddsoddi yn system sylfaen we DEWIS Cymru, mae hwn yn adnodd cymorth ar-lein a all eich helpu i feddwl am yr hyn sydd o bwys i chi, ac sy'n rhoi gwybodaeth am y bobl a'r gwasanaethau yn eu hardal.

Wrth drafod Cymhariaeth Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2019/20 a nodwyd bod 35 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn y cyfanswm a osodwyd, y gellir cymharu 19 ohonynt ar

hyn o bryd ledled Cymru, â'r safle wedi'i raddio. O'r rhai hynny gallwn ni gymharu 14 flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ôl ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Gan fod llawer o'r 35 mesur yn cael eu cymryd o setiau data cenedlaethol eraill, sydd â'u hamserlenni eu hunain, ni fydd llawer ohonynt ar gael i'r PAM a osodwyd tan ddiwedd 2019.

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi, yn dilyn adborth gan y Cabinet, mewn cysylltiad â thudalennau 85 ac 86 o'r adroddiad, bod dogfen a gyflwynwyd yn darparu manylion y sylwadau a chymau gweithredu ychwanegol ar gyfer dangosyddion PAM, fel y'i nodwyd mewn coch ar y ddalen, a fyddai'n cael eu cynnwys yng nghyhoeddiad terfynol y ddogfen.

Roedd yr Arweinydd Dros Dro yn dymuno i'w diolchiadau gael eu trosglwyddo i'r holl staff a oedd yn gysylltiedig â chwblhau'r adroddiad a chynigiodd yr argymhellion dros gymeradwyo'r adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad, codwyd ymholiadau ynghylch nifer y swyddi a ddyrannwyd o ganlyniad i ddatblygiadau yn Oakdale Plateau [Llwyfandir Glynderw]. Fe wnaeth swyddogion esbonio bod ardaloedd sydd heb eu datblygu o hyd ac nad oeddent yn gallu darparu'r ffigurau yn y cyfarfod ond y byddent yn eu cylchredeg yn dilyn y cyfarfod.

Wrth drafod Amcan Lles 2, codwyd ymholiadau ynghylch y 25k o swyddi i'w creu o ganlyniad i'r Fargen y Ddinesig a cheisiwyd rhagor o wybodaeth am nifer y swyddi a fydd yn aros o fewn y Fwrdeistref. Fe wnaeth swyddogion esbonio y bydd y ffigur uchelgeisiol yn cael ei ledaenu ar draws pob un o'r 10 Awdurdod Lleol.

Roedd trafodaethau ynghylch Amcan Lles 1 a chyrrhaeddiad ar draws Ysgolion Caerffili a chodwyd pryderon bod perfformiad Caerffili yn is na Chyfartaledd Cymru. Esboniodd swyddogion, er bod y sylwadau'n gywir ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/18, mae canlyniadau interim wedi awgrymu gwelliant ar ddata'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag ni fyddai'r ffigurau dilysedig terfynol ar gael tan y flwyddyn newydd.

Wrth ystyried Amcan Lles 3, roedd trafodaethau ynghylch y Rhaglen WHQS ac er y cydnabuwyd y bu gwelliannau sylweddol i gartrefi a chynnydd ar draws y cynllun, derbyniwyd nifer o gŵynion mewn cysylltiad â safonau gwaith, lles, diogelwch a'r amodau y bu disgwyl i denantiaid fyw ynddynt wrth i waith gael ei wneud. Fe wnaeth swyddogion gydnabod y bu nifer o anawsterau yn ystod cyfnod y rhaglen, gan gynnwys colli contractwyr, cwblheir arolygon boddhad defnyddwyr ar ôl cwblhau'r gwaith ac fe'u cynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ac felly mae'r wybodaeth o fewn yr adroddiad yn cynrychioli'r wybodaeth a gasglwyd o'r broses hon.

Fe godwyd ymholiad pellach mewn cysylltiad â'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir o ganlyniad i'r rhaglen ac a oedd unrhyw gynlluniau i ddatblygu unedau busnes llai ar draws y fwrdeistref sy'n debyg i ICE Caerffili. Fe wnaeth swyddogion esbonio bod prosiectau tebyg wedi cael eu datblygu o fewn y Tŷ Weindio a gyda Thai Linc. Yn ogystal, nodwyd bod trosiant mewn unedau busnes wedi gwella â swyddi gwag yn cael eu llenwi'n gyflymach a bydd gwaith adeiladu ychwanegol yn digwydd yn Rhymini a Ffos y Gerddinen, a fydd yn cynyddu portffolio'r Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog a thrwy ddefnyddio'r system bleidleisio electronig, ac wrth nodi bod 48 o blaid ac 1 yn ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo Adroddiad Perfformiad  
Blynyddol 2018/19 am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog.

**12. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL A LLYTHYR BLYNYDDOL 2018/19**

Fe wnaeth y Cyngorydd D. Hardacre ddatgan buddiant personol yn yr eitem hon fel Cyngorydd Cymunedol ar gyfer Cwm Darran. Er bod y Swyddog Monitro wedi cynghori nad oedd angen datgan buddiant o ystyried natur yr adroddiad, penderfyniad yr aelod ydoedd ac roedd y Cyngorydd Hardacre yn teimlo y byddai datganiad o fuddiant personol yn briodol a dewisodd hefyd beidio â chymryd rhan yn y ddatl na phleidleisio arni.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cyngor o gyhoeddiad Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2018/19) mewn cysylltiad â'r Cyngor hwn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Fe nodwyd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) yn cyhoeddi Llythyr Blynyddol at bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n nodi dadansoddiad clir a chryno o'r holl gŵynion a dderbyniwyd ac a ymchwiliwyd gan y PSOW yn ystod 2018/19 sy'n ymwneud yn benodol â'r Awdurdod. Roedd y Llythyr Blynyddol mewn cysylltiad â Chaerffili wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad 1.

Fe nododd yr aelodau fod nifer y cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn cysylltiad â Chaerffili wedi cynyddu i 65 eleni, o'i gymharu â'r 40 a dderbyniwyd y llynedd. O'r 65 cwyn a dderbyniwyd, fe wnaed 26 yn gynamserol (cynnydd o 19 ers y llynedd), roedd 6 allan o awdurdodaeth, a chaewyd 26 achos ar ôl eu hystyried yn y lle cyntaf (cynnydd o 4 ers y llynedd). Yn ogystal, fe nodwyd y bu 9 penderfyniad cynnar ac 1 gŵyn wedi'i chynnal/cadarnhau'n rhannol.

Manylodd yr adroddiad hefyd, mewn cysylltiad â chwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, bod 3 cwyn yn ymwneud â Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol Caerffili, a chaewyd pob un ohonynt ar ôl eu hystyried yn y lle cyntaf. Fe dderbyniwyd 4 cwyn mewn cysylltiad â Chynghorwyr Tref a Chymuned, ynghylch Cyngor Cymuned Cwm Darran, a chaewyd pob un ohonynt ar ôl eu hystyried yn y lle cyntaf.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y Llythyr Blynyddol a oedd yn manylu ar gyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, sy'n rhoi pwerau newydd â'r nod o wella mynediad i swyddfa'r PSOW; darparu mecanwaith di-dor ar gyfer delio â chwynion pan fydd cysylltiad annatod rhwng gofal GIG claf â gofal iechyd preifat; caniatáu i'r PSOW gynnal ei ymchwiliadau menter ei hun pan fydd angen er budd y cyhoedd a sicrhau y gellir defnyddio data cwynion o bob rhan o Gymru i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion yng Nghymru.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir o fewn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo trwy ddefnyddio'r system bleidleisio electronig a chytunwyd yn unfrydol ar hyn.

